

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 29 Mai 2002

**Amser:** 9.00 tan 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol:** **Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Kirsty Williams (**Cadeirydd**) Brycheiniog a Maesyfed

Geraint Davies Rhondda

Jocelyn Davies Dwyrain De Cymru

Brian Gibbons Aberafan

Jane Hutt (Gweinidog) Bro Morgannwg

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Dai Lloyd Gorllewin De Cymru

Val Lloyd Dwyrain Abertawe

David Melding Canol De Cymru

**Aelodau o Bwyllgor Dethol  
Ty'r Cyffredin ar Faterion  
Cymreig**

Martyn Jones AS

Julie Morgan AS

Adam Price AS

Roger Williams AS

**Swyddogion Yn Bresennol**

Dr Ruth Hall	Prif Swyddog Meddygol
Lynne Hamilton	Rhaglen Newid Strwythurol GIG
Tim Kirby	Is-Adran Rheoli Perfformiad GIG
Simon McCann	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Mike Ponton	Tîm Cynllunio Strategaeth Iechyd a Lles
Helen Thomas	Cyfarwyddwr, Grwp Gofal Cymdeithasol

**Ysgrifenyddiaeth:**

Jane Westlake	Clerc y Pwyllgor
Claire Morris	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Rod Richards. Cymerodd Val Lloyd le Lynne Neagle.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferylllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf;
- Brian Gibbons, ymarferydd meddygol cofrestredig;
- Dai Lloyd, ymarferydd cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Val Lloyd, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe; nyrs gofrestrdedig ac athrawes nyrsys.

**Eitem 2: Mesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd – Gorchymyn drafft *arfaethedig* Rheoliadau Strategaethau Iechyd a Lles (Cymru)**

**Papurau: HSS-12-02(p.1) a HSS-12-02(p.1a)**

2.1 Yn unol â'r weithdrefn y cytunodd y Pwyllgor arni'n flaenorol ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth, dosbarthwyd gwelliannau i'r Gorchymyn drafft arfaethedig cyn y cyfarfod a gellir eu canfod ym mhapur HSS-12-02(p.1a). Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch y broses gytûn a chytunwyd y byddai'n cael ei hadolygu yng ngoleuni profiad.

2.2 Dywedodd y Gweinidog fod y Strategaethau Iechyd a Lles yn rhan hanfodol o weithredu Cynllun y GIG i Gymru ac roedd yn sail i ymrwymiad y Cynulliad i weithio mewn partneriaeth rhwng llywodraeth leol a'r GIG a'u partneriaid. Yn dilyn Caniatâd Brenhinol, byddai cymal 22 o Fesur Diwygio'r GIG a

Phroffesiynau Iechyd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud rheoliadau o ran y ddyletswydd a roddir ar bob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol i lunio a gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles ar y cyd ar gyfer poblogaeth ardal yr awdurdod lleol. Mae'r rheoliadau drafft arfaethedig yn nodi'r fframwaith manwl y byddai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio o'i fewn gydag Ymddiriedolaethau GIG, Cynghorau Iechyd Cymunedol, y sector gwirfoddol, y sector annibynnol ac amrywiaeth o bartneriaid lleol eraill er mwyn llunio a gweithredu Strategaeth Iechyd a Lles ar y cyd. Dylai'r strategaethau cyntaf fod ar waith erbyn 1 Ebrill 2004.

2.3 Byddai arweiniad i fynd gyda'r rheoliadau yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a byddai llawer o'r manylion ynghylch gweithredu Strategaethau Iechyd a Lles yn cael eu cwmpasu o fewn y fframwaith arweiniad. Byddai'r arweiniad yn cael ei gyhoeddi cyn i'r rheoliadau ddod i rym, er mwyn sicrhau fod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi paratoi'n ddigonol cyn llunio a gweithredu eu Strategaeth Iechyd a Lles. Byddai'r rheoliadau a'r fframwaith arweiniad yn cael eu hategu gan raglen datblygu a hyfforddiant trefniadol a fyddai'n ymdrin â materion megis gweithio mewn partneriaeth, adeiladu tîm a newid diwylliant. Roedd y rheoliadau hefyd yn rhoi dyletswydd ar y Byrddau Iechyd Lleol a'r awdurdod lleol i ystyried cychwyn 'trefniant comisiynu' gyda'r Ymddiriedolaeth neu Ymddiriedolaethau GIG er mwyn comisiynu gwasanaethau gofal eilaidd ar gyfer y boblogaeth leol. Mae ymgynghori wedi cymryd lle ar grwpio'r Byrddau Iechyd Lleol o bosibl ar gyfer y trefniadau hyn a byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor ar hyn cyn bo hir.

## **Gwelliant 1 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Paragraff 4 – Dyletswydd i gydweithredu â chyrrff a ragnodwyd

*Ychwaneger is baragraff newydd:*

*"(c) Y Cyngor Gwirfoddol Sirol sy'n cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol yn yr ardal; a"*

*Dylid ail rifo'r is-baragraff "(c)" sy'n bodoli eisoes fel "(d)".*

Ymateb gan y Gweinidog

Cefnogwyd y gwelliant mewn egwyddor, o ystyried rôl allweddol y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ond roedd yn rhy gynnar i'w pennu cyn i ymgynghoriad ehangach gymryd lle. Efallai y byddai sefydliadau gwirfoddol allweddol eraill hefyd yn teimlo na ddylid eu henwi. Byddai'n fwy priodol ymdrin ag enwi sefydliadau yn yr arweiniad yn hytrach na'r rheoliadau.

Prif Bwyntiau Trafod

- Cefnogir y Cynghorau Gwirfoddol Sirol gan y Cynulliad a byddai eu henwi yn y rheoliadau yn dangos ymrwymiad y Cynulliad i gynnwys y sector gwirfoddol ym maes datblygu polisi.
- Byddai arweiniad yn cael ei baratoi gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ac felly ni fyddai

gan aelodau o bleidiau eraill unrhyw ddylanwad drosto.

- Nid oedd y gwelliant yn disodli'r is baragraff presennol (c) felly nid oedd cynnwys Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn andwyol i sefydliadau gwirfoddol eraill.

Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddangos eu bod wedi cydweithio ag unrhyw sefydliad, boed yn gwneud elw neu'n wirfoddol, a allai ddangos diddordeb mewn iechyd a lles yn y gymuned.

### Casgliad

Derbyniwyd y gwelliant. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno i ymgynghori arno, ond teimlai ei fod yn bwysig na ddylai fod yn argymhellol ac na ddylai hepgor unrhyw sefydliadau gwirfoddol.

### **Gwelliant 2 – David Melding, AC**

Paragraff 7(1) – Integreiddio strategaethau neu gynlluniau argymhellol eraill mewn strategaethau iechyd a lles.

*Ychwaneger is baragraff newydd:*

*"(d) y Strategaeth Gofalwyr Cenedlaethol ac unrhyw gynllun ar gyfer ei weithredu'n lleol a gynhyrchwyd gan un o'r cyrff cyfrifol."*

### Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd yr egwyddor a oedd wrth wraidd y gwelliant, ond mynegwyd pryder nad oedd y Strategaethau Gofalwyr lleol yn gynlluniau statudol, ond cynlluniau a baratowyd o dan delerau ac amodau Adroddiad Grant Arbennig Gofalwyr. Teimlwyd y byddai'n fwy priodol ymdrin â hyn yn yr arweiniad yn hytrach na'r rheoliadau.

### Prif Bwynt Trafod

- Pe bai cynlluniau neu strategaethau penodol yn cael eu henwi yn y rheoliadau mynegwyd pryder y byddai'n rhaid eu diwygio bob tro y caiff strategaeth newydd ei datblygu.

### Casgliad

Yn dilyn sicrwydd gan y Gweinidog y byddai cyfeiriad penodol yn cael ei wneud yn yr Arweiniad Cynllunio Strategaeth Iechyd a Lles ynghylch yr angen i gynllunio ar gyfer gofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yng nghyd-destun y Strategaeth Gofalwyr Genedlaethol, tynnwyd y gwelliant yn ôl.

## Gwelliant 3 – David Melding, AC

### Paragraff 8 – Cyhoeddi'r strategaeth ddrafft ac ymgynghori

Dileu is baragraff (2) a'i newid gyda:

*"(2)(a) dylai'r cyrff cyfrifol ymgynghori â phersonau neu sefydliadau yr ymddengys eu bod yn gyrff cyfrifol sy'n cynrychioli buddiannau sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y strategaeth, a*

*(b) dylai'r cyrff cyfrifol gyfeirio'r strategaeth ddrafft i'r Cyngor Iechyd Cymunedol ymgynghori arno gyda'r boblogaeth leol;*

*a dylai ystyried canlyniadau gwaith ymgynghori o'r fath wrth gwblhau'r strategaeth i gael ei mabwysiadu."*

### Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant oherwydd o dan baragraff 4 o'r rheoliad byddai Cyngorau Iechyd Cymunedol yn cael eu cynnwys yn llawn wrth lunio ac adolygu'r strategaeth.

### Casgliad

Ni chefnogwyd y gwelliant. Fe'i tynnwyd yn ôl felly.

2.4 Pwysleisiodd y Gweinidog pa mor bwysig oedd gofal cymdeithasol a'r angen i sicrhau bod y rheoliadau yn mynegi'r dimensiwn gofal cymdeithasol o ran cynllunio a gosod blaenoriaethau ar gyfer iechyd a lles yn llawn.

2.5 Gofynnodd Brian Gibbons a oedd y rheoliadau yn gosod dyletswydd statudol gyfartal ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Byddai Peter Jones, Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad, yn edrych i mewn i'r mater a darparu ymateb.

### Gweithredu

- Llefarywyr y pleidiau i adolygu'r broses ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth drafft.
- Peter Jones i ddarparu eglurhad ynghylch y ddyletswydd statudol a roddir ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

## Eitem 3: Mesur GIG (Cymru) Drafft

## **Papurau: HSS-12-02(p.2) a HSS-12-02(p.2a)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau o'r Pwyllgor Materion Cymreig.

3.2 Yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni'n flaenorol gan y Pwyllgor ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth, roedd gwelliannau i'r Mesur drafft wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod a gellir eu canfod ym mhapur HSS-12-02(p.2a).

3.3 Amlinellodd y Gweinidog brif bwyntiau polisi'r Mesur:

- Fframwaith cyffredinol ar gyfer atebion Cymreig manwl
- Cryfhau llais annibynnol cleifion drwy gadw'r Cynghorau Iechyd Cymunedol
- Rhoi sail statudol i Ganolfan Iechyd Cymru a Proffesiynau Iechyd Cymru i ddisodli Bwrdd Cymru a chwmpasu ystod ehangach o broffesiynau iechyd.

Er na wrthwynebir nifer o welliannau a gynigir mewn egwyddor, dywedodd hefyd y byddai eu heffaith o roi fwy o fanylder yn y pwerau cyffredinol yn gweithio yn erbyn buddiannau'r Cynulliad ac yn llesteirio ar ei ryddid i ddeddfu. Pe bai materion o'r fath yn cael eu gadael i ddeddfwriaeth eilaidd, byddai mwy o ryddid a hyblygrwydd gan y Cynulliad i addasu'r ddeddfwriaeth i ddiwallu anghenion cyfnewidiol, a byddai'n rhoi mwy o gyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu a dylanwadu ar y ddeddfwriaeth a wnaed.

3.4 Dywedodd Martyn Jones, AS, fod aelodau'r Pwyllgor Materion Cymreig yn awyddus i weithio â'r Cynulliad o ran datblygu'r Mesur. Drwy gydol mis Mehefin, bydda'r Pwyllgor Materion Cymreig yn chwilio am dystiolaeth ysgrifenedig gan unrhyw barti â diddordeb yn ogystal â thargedu 68 o gyrff penodol, megis grwpiau proffesiynol, undebau llafur a cholegau prifysgol. Byddent hefyd yn cymryd dystiolaeth ar lafar gan broffesiynau iechyd, cynghorau iechyd cymunedol, cyrff GIG, cyrff cyhoeddus a chyrff y llywodraeth. Byddai adroddiad o'u casgliadau yn cael ei gyhoeddi ar 8 Gorffennaf, cyn mynd ger bron Uwch Bwyllgor Cymru i'w ystyried.

### **Gwelliant 1 – cynigiwyd gan Blaid Cymru**

*Newid teitl hir y Mesur fel a ganlyn:*

*Yn y llinell olaf dileu'r geiriau "ac at ddibenion cysylltiedig" a'u disodli gyda:*

*"ac at ddibenion eraill a gysylltir â'r GIG, gan gynnwys gwneud darpariaeth ar gyfer archwiliad iechyd; a hybu iechyd yng Nghymru; gan gynnwys atal y defnydd o dybaco mewn adeiladau priodol a ddefnyddir gan y cyhoedd; a phwerau caniatâol i ganiatáu gofal personol am ddim i'r henoed; ac at ddibenion cysylltiedig."*

Ymateb gan y Gweinidog

Ni dderbyniwyd y gwelliant. Ceisiwyd deddfwriaeth sylfaenol er mwyn galluogi'r broses o sefydlu fframwaith cyffredinol er mwyn gweithredu 'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun ar gyfer y GIG ynghyd â'i Bartneriaid'. Byddai'r gwelliant yn ehangu'r cwmpas i'r fath raddau fel na fyddai'r Mesur yn cael ei gyflwyno. O ran pwyntiau penodol y gwelliant:

- Byddai Proffesiynau Iechyd Cymru yn ymwneud â materion sicrwydd ansawdd;
- Nid oedd y pwerau angenrheidiol gan y Cynulliad i wahardd ysmegu mewn manau cyhoeddus;
- Roedd y Cynulliad wedi cytuno yn y cyfarfod llawn fod gofal personol am ddim i'r henoed yn fater i fynd ar ei drywydd ar lefel y DU, ac nid yn fater i fynd ar ei drywydd yn unochrog.

### Prif Bwyntiau Trafod

- Ysmegu oedd achos unigol mwyaf salwch yng Nghymru a byddai ei atal yn cael effaith sylweddol ar iechyd pobl yng Nghymru.
- Roedd iechyd ac archwilio wedi cael eu datganoli i Gymru, felly dylai archwilio iechyd gael ei ddatganoli hefyd.
- Dylai fod gan y Cynulliad bolisi eglur ar ofal personol am ddim. Ni ddylid caniatáu iddo fynd ar goll yn San Steffan.

Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 1

O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 5

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Geraint Davies  
Jocelyn Davies  
Dai Lloyd  
David Melding

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Brian Gibbons  
Jane Hutt  
Ann Jones  
Val Lloyd  
Kirsty Williams

### Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant.

### **Gwelliant 2 – cynigiwyd gan Blaid Cymru**

Cymal 1 (1) Cyngorau Iechyd Cymunedol.

*Yn adran newydd 20A (2) ychwaneger (llinell 14):*

*"(c)" dylai Cyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru gydffinio â Byrddau Iechyd Lleol."*

## Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail fod Cyngorau Iechyd Cymunedol eisoes wedi mynd trwy ad-drefnu ac ansicrwydd sylweddol a bod y nifer presennol mewn sawl agwedd yn cydymffurfio â ffiniau byrddau iechyd lleol.

## Prif Bwyntiau Trafod

- Roedd y gwelliant yn ceisio cryfhau annibyniaeth y Cyngorau Iechyd Cymunedol, a chan fod 22 o awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol roedd yn gwneud synnwyr i gael 22 o Gynghorau Iechyd Cymunedol.
- Teimlai rhai Aelodau y byddai'r gwelliant yn atal y Cynulliad rhag penderfynu ar gyfluniad y Cyngorau Iechyd Cymunedol, ac y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 2:

Gwelliant 2: O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 5

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Geraint Davies  
Jocelyn Davies  
Dai Lloyd  
David Melding

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Brian Gibbons  
Jane Hutt  
Ann Jones  
Val Lloyd  
Kirsty Williams

## Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 3 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Cymal 2 (3) Canolfan Iechyd Cymru. Llinell 7 newid "chairman" i "chair".

**Gwelliant 8 - cynigiwyd gan Ann Jones, AC**

Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:



Paragraff 2(a) newid "*chairman*" i "*chairperson*".

#### Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y ddau welliant. Er y cydnabuwyd y gwahaniaeth rhwng drafftio polisi yn y Cynulliad a San Steffan, roedd y Cynulliad yn ymrwymedig i ddefnyddio terminoleg niwtral o ran rhyw. Byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Cwnsler Seneddol i geisio ymdrin â'r mater hwn.

#### **Gwelliant 4 – cynigiwyd gan Ann Jones AC**

Cymal 3 (1) Swyddogaethau'r Ganolfan. Ar ôl llinell 19 ychwaneger:

*"(e) cynnal ymchwil i achosion anghydraddoldebau iechyd ymysg poblogaeth Cymru a darparu gwybodaeth ar fentrau iechyd cyhoeddus ar leihau anghydraddoldebau o'r fath, a gwerthuso eu heffaith."*

#### Ymateb gan y Gweinidog

Roedd hwn yn welliant defnyddiol gan y dylai'r Cynulliad fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hybu ymchwil ond teimlwyd y byddai'n fwy priodol defnyddio'r rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur er mwyn llunio pwerau at y diben hwn.

#### Casgliad

Yn dilyn sicrwydd gan y Gweinidog y byddai hyn yn elfen allweddol o'r ddeddfwriaeth eilaidd a ddeilliai o'r Mesur, tynnwyd y gwelliant yn ôl.

#### **Gwelliant 5 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Cymal 3 (2) Swyddogaethau'r Ganolfan. Mae'r cymal hwn yn datgan i bwy y dylid rhoi gwybodaeth ond nid yw'n amlinellu sut y gellir wneud cais am ymchwiliad. Dylai system fodoli lle gall grwpiau cymunedol cyfreithiol, e.e. undebau llafur ac ati wneud cais i Ganolfan Iechyd Cymru edrych i mewn i ryw fater.

#### Ymateb gan y Gweinidog

Roedd y cwestiwn a oedd yn ymwneud â chael mynediad i Ganolfan Iechyd Cymru yn fwy priodol i'r rheoliadau a ddeilliai o'r Mesur, a byddai'n cael ei gynnwys yn y broses deddfwriaeth eilaidd.

#### Casgliad

Tynnwyd y gwelliant yn ôl.

## **Gwelliant 6 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Cymal 4 (5) Proffesiynau Iechyd Cymru. Mae'r diffiniad o weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn annelwig ond cymerir fod cynsail ar gyfer y geiriau hyn.

### Ymateb gan y Gweinidog

Cafwyd y diffiniad o Fesur Diwygio'r GIG a Phroffesiynau Gofal Iechyd. Byddai nodyn gwybodaeth ar gael i'r aelodau er mwyn egluro'r mater.

### Prif Bwyntiau Trafod

- Nid oedd Proffesiynau Iechyd Cymru yn gorff rheoliadol. Byddai'n cefnogi Cyngor Proffesiynau Cymru o ran darparu datblygiad proffesiynol parhaus. Byddai swyddogaethau Proffesiynau Iechyd Cymru yn fater y byddai'r Cynulliad am ymdrin ag ef yn y rheoliadau a fydd yn deillio o'r Mesur.

### Casgliad

Tynnwyd y gwelliant yn ôl.

## **Gwelliant 7 – cynigiwyd gan Blaid Cymru**

Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:

*Ar ôl paragraff 1(a) ychwaneger:*

*"sichrau gwasanaeth am eiriolaeth: a"*

### Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod eisoes wedi ei gwmpasu ym mharagraff 2(g) o Atodlen 7. Byddai gofyn i Gynghorau Iechyd Cymunedol ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i gleifion ac roedd dulliau ar gyfer gwneud hynny eisoes yn cael eu treialu. Byddai angen fframwaith cyffredinol a ymdriniai â'r angen am amrywiaethau lleol. Byddai'n fwy priodol ymdrin â hyn yn y rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur.

### Prif Bwyntiau Trafod

- Ni theimlwyd y byddai rhoi pwerau statudol i Gyngorau Iechyd Cymunedol yn atal gwasanaethau eiriolaeth rhag cael eu datblygu mewn lleoliadau eraill.
- Ceisiwyd eglurhad ynghylch ai ond Cyngorau Iechyd Cymunedol a allai ddarparu'r gweithgareddau a restrir yn a19A Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 7

O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 5

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

Geraint Davies  
Jocelyn Davies  
Dai Lloyd  
David Melding

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Brian Gibbons  
Jane Hutt  
Ann Jones  
Val Lloyd  
Kirsty Williams

Casgliad

Gwrthodwyd y gwelliant.

Gweithredu

- Eglurhad i gael ei ddarparu ynghylch ai ond Cyngorau Iechyd Cymunedol a allai ddarparu'r gweithgareddau a restrir yn a19A Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

**Gwelliant 9 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:

Paragraffau 2(e) a 2(f) – Pam nad oes cynigion i roi pwerau i ymddiriedolaethau? (Nodwyd fod camgymeriad teipio yng ngeiriad y gwelliant ym mhapur HSS-12-2(p2a). Dylai'r geiriad fod wedi darllen: "Pam nad oedd cynigion i roi cyngor i ymddiriedolaethau?")

Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniodd y Gweinidog y dylai fod cyfeiriad at ymddiriedolaethau.

**Gwelliant 10 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:

Paragraffau 2(g) – a oes rhagor o fanylion ynghylch gwasanaethau eiriolaeth?

Cwmpaswyd y materion yn y trafodaethau ynghylch Gwelliant 7

### **Gwelliant 11 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Atodlen 1. *Yn Atodlen newydd 7A i Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Yn union ar ôl paragraff 2(g) dylid ychwanegu:*

*"(h) darparu gwasanaeth cymorth cleifion ar gyfer cleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol."*

#### Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant am nad oedd yn briodol i'r Mesur. Roedd cynlluniau ar waith eisoes ar gyfer gwasanaeth cymorth cleifion. Roedd cynlluniau peilot yn cael eu cynnal ar hyn o bryd er mwyn penderfynu ar y darparwr gwasanaethau cymorth cleifion mwyaf priodol ac hyd nes y byddant wedi eu cwblhau roedd yn rhy gynnar i'w gofnodi gyda Chynghorau Iechyd Cymunedol.

#### Prif Bwyntiau Trafod

Cadarnhaodd Simon McCann, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, y byddai'n bosibl ychwanegu'r ddarpariaeth gwasanaethau cymorth cleifion yn ddiweddarach, pe bai canlyniadau'r cynllun peilot yn profi mai Cynghorau Iechyd Cymunedol oedd y darparwr mwyaf priodol.

#### Casgliad

Ni chefnogwyd y gwelliant felly fe'i tynnwyd yn ôl.

### **Gwelliant 12 – cynigiwyd gan Brian Gibbons, AC**

Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:

Paragraff 3 (1) (h) – ai cyfeiriadau yw'r rhain at gynlluniau fferyllfeydd lleol?

#### Ymateb gan y Gweinidog

Cadarhawyd mai cyfeiriad oedd hwn at wasanaethau fferyllfeydd lleol.

## Casgliad

Tynnwyd y gwelliant yn ôl.

### **Gwelliant 13 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Atodlen 1. *Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Paragraff 4 – yn y linell gyntaf (llinell 25 ar dudalen 6), ychwaneger "(1)" cyn "The" a'r gair "shall" am y gair "may".*

## Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail bod y geiriad a gynigir yn rhy argymhellol. Teimlwyd y byddai'n well ymdrin â'r mater hwn yn y rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur.

## Casgliad

Ni chefnogwyd y gwelliant felly fe'i tynnwyd yn ôl.

### **Gwelliant 14 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Atodlen 1. *Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Paragraff 4(1) (a) (i) (llinell 27 ar dudalen 6), dylid ychwanegu'r geiriau "support and" cyn y gair "advise".*

## Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y gwelliant.

### **Gwelliant 15 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Atodlen 1. *Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Paragraff 4(1)(b) (llinell 32 ar dudalen 6), dylid dileu'r geiriau "the membership".*

## Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant. Gallai fod yn briodol i'r Cynulliad ystyried cyfansoddiad ac aelodaeth corff

o'r fath ac roedd y geiriad presennol yn rhoi'r hyblygrwydd i wneud hynny.

### Prif Bwyntiau Trafod

Diben y gwelliant oedd gwneud y corff Cymru gyfan newydd hwn mor annibynnol â phosibl a thynnu grym y Cynulliad i benodi. Byddai hefyd yn sicrhau Cynghorau Iechyd Cymunedol mai hwy fyddai'n ethol y cadeirydd i'r corff hwn.

Pleidleisiodd y pwyllgor ar Welliant 15

O blaid 1, Ymatal 0, Yn erbyn 8

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid

David Melding

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn

Geraint Davies  
Jocelyn Davies  
Brian Gibbons  
Jane Hutt  
Ann Jones  
Dai Lloyd  
Val Lloyd  
Kirsty Williams

### Casgliad

Trechwyd y gwelliant.

### **Gwelliant 16 – cynigiwyd gan David Melding, AC**

Atodlen 1.

*Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Ym Mharagraff 4(1)(b) yn union ar ôl y paragraff hwn dylid ychwanegu'r paragraffau canlynol:*

*"(2) Dylai unrhyw gorff a sefydlir o dan y paragraff hwn –*

*(a) baratoi adroddiad ym mhob blwyddyn galendr yn amlinellu barn cleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a bydd yr adroddiad yn cael ei roi ger bron y Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn galendr;*

*(b) ystyried oblygiadau unrhyw newid i Gynllun Iechyd Gwladol a gaiff eu hysbysu o dan baragraff 5(b) yr Atodlen hwn.*

*(3) Bydd aelodaeth unrhyw gorff a sefydlir o dan y paragraff hwn yn cynnwys cadeiryddion pob Cyngor Iechyd Cymunedol yng Nghymru a bydd cadeirydd y corff hwnnw yn cael ei ethol gan ei aelodau."*

### Ymateb gan y Gweinidog

Gwrthodwyd y gwelliant ar y sail ei fod yn rhy fanwl ac y byddai'n well ymdrin ag ef yn y rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur.

### Prif Bwyntiau Trafod

- Cytunwyd bod y gwelliant yn codi egwyddor bwysig ynghylch trefniadau cofnodi ac awgrymwyd y dylid ymdrin â hyn drwy gyfrwng deddfwriaeth eilaidd.

### Casgliad

Ni chefnogwyd y gwelliant felly fe'i tynnwyd yn ôl.

### **Gwelliant 17 – David Melding AC**

*Atodlen 1. Yn Atodlen newydd 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977:*

*Paragraff 5 – yn union ar ôl ychwanegu'r paragraff hwn:*

*"5. Cyn y gellir gwneud newid sylweddol i Gynllun Gwasanaeth Iechyd Gwladol lleol mewn perthynas â dosbarth y Cyngor, dylai'r Cyngor hwnnw –*

*(a) ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd y gallai'r newid effeithio arnynt; a*

*(b) sicrhau y caiff corff a sefydlwyd o dan baragraff 4 o'r Atodlen hwn ei hysbysu o newid o'r fath".*

### Ymateb gan y Gweinidog

Derbyniwyd y gwelliant mewn egwyddor ond byddai angen drafftio geiriad diwygiedig.

### Casgliad

Roedd David Melding yn fodlon i'r Gweinidog awgrymu geiriad priodol.

## Gweithredu

- Papur i'w nodi gyda geiriad diwygiedig.

3.4 Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai amser yn cael ei gynnwys i mewn i raglen y Pwyllgor ar gyfer ystyried y ddeddfwriaeth eilaidd a ddeilliai o'r Mesur. Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor Materion Cymreig am fynychu ac edrychai ymlaen i weld y Mesur yn cael ei gyhoeddi ar ei ffurf derfynol.

### **Eitem 4: Cofnodion 15 Mai 2002**

**Papur: HSS-11-02(min)**

4.1 Cytunwyd ar gofnodion 15 Mai.

### **Eitem 5: Materion yn Codi**

5.1 Nodwyd nad oedd y papur i'w nodi ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig ag epilepsi wedi ei gynnwys yn y rhestr o gamau heb eu gweithredu.

### **Eitem 6: Datganiad ar lansio Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion**

6.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion. Atodir copi yn Atodiad A.

6.2 Mewn ymateb i'r datganiad, gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Roedd cael gafael ar wasanaethau, yn enwedig mewn argyfwng, yn broblem yn arbennig yn ardal y Cymoedd.
- Roedd angen rhagor o gapasiti o ran staff ac adnoddau.
- Roedd angen rhagor o ddarpariaeth ar gyfer gofal sylfaenol, gan bod 90% o wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael eu darparu yn y sector gofal sylfaenol.

### **Datganiad ar y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol**

6.3 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Atodir copi yn Atodiad B.

6.4 Cyhoeddodd y Gweinidog mai Ymddiriedolaeth GIG Felindre fyddai'r Ymddiriedolaeth reoli.



Byddai'r staff yn cael eu lleoli ar hyd a lled Cymru ac nid yng Nghaerdydd yn unig.

6.5 Dywedodd Dr Ruth Hall y byddai'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn cyfuno'r adnoddau a leolwyd yn flaenorol mewn awdurdodau iechyd a'r Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus a byddai'n seiliedig yn y GIG. Roedd trafodaethau yn parhau â'r staff ynghylch eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ac hefyd sut y gallai bod yn aelodau o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol eu gwasanaethu o ran darparu ffocws ar gyfer datblygiad proffesiynol ac ymwneud â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Cadarnhaodd hefyd y byddai'n bosibl i Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod yn aelod o fwy nag un Bwrdd Iechyd Lleol. Roedd Canolfan Iechyd Cymru yn cydnabod bod arfer iechyd cyhoeddus yn cael ei gyflawni mewn nifer o gyrff, ac nid y GIG yn unig, ac roedd yn darparu corff annibynnol er mwyn cefnogi a chyfuno'r ymdrechion proffesiynol hynny a oedd ar wasgar. Byddai hefyd yn darparu cyngor a ffocws ar gyfer budd cyhoeddus llawer ehangach o ran datblygu iechyd ac iechyd cyhoeddus.

6.6 Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'n bosibl rhyddhau unrhyw ddatganiadau yn y dyfodol i'r aelodau ar gopi caled.

## **7. Unrhyw Fater Arall**

7.1 Eir ar drywydd ymateb i gwestiwn Brian Gibbons ar 23 Ionawr ynghylch buddiannau a oedd yn daladwy i staff a waharddwyd.

7.2 Atgoffodd Val Lloyd yr Aelodau eu bod wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth y prynhawn hwnnw, lle byddent yn trafod y cysylltiad rhwng ceisiadau cynllunio ac asesiadau effaith iechyd.

**Atodiad A**

### **Datganiad ar lansio'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion**

Mae'n bleser gennyf gael hysbysu'r pwyllgor am lansio'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion.

Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar oedolion o oedran gwaith, ac mae'n cwmpasu hybu iechyd a chynhwysiant cymdeithasol, anghenion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, mynediad i wasanaethau a darparu assesiad cynhwysfawr a thriniaeth.

Mae'n sail i'r egwyddorion a sefydlwyd yn ein Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, ac mae'n arweiniad ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r gwaith o gynllunio, comisiynu a chyflenwi'r gwasanaeth. Ei nodau cyffredinol yw hybu ansawdd ac ymdrin ag amrywiaethau o ran mynediad i ofal, yn ogystal â sicrhau fod defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yn cyfranogi'n llawn ym

mhob cam ac ym mhob agwedd ar eu rhaglen gofal.

I grynhoi, mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a'r Strategaeth Cymru Gyfan yn cynnwys y nodau penodol canlynol: -

- Addysgu'r cyhoedd ynghylch triniaethau effeithiol salwch meddwl, datblygu agweddau cadarnhaol, lleihau stigma a sicrhau bod hybu iechyd meddwl da wrth wraidd ein hymagwedd tuag at wasanaethau.
- Darparu mynediad teg i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl Cymru i gyd, waeth lle y maent yn byw, eu hoed, rhyw, rhywioldeb, anabledd, hil, ethnigrwydd neu eu cefndiroedd cymdeithasol, diwylliannol neu grefyddol.
- Sicrhau cydweithrediad agos rhwng gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol a'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus er mwyn comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol, cynhwysfawr a chydlynus.
- Asesu anghenion meddygol, seicolegol a chymdeithasol defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ar adeg briodol, a chydag adolygiadau ar gyfnodau rheolaidd, a darparu gofal effeithiol o ansawdd uchel yn seiliedig ar y dystiolaeth orau.
- Darparu gwasanaethau iechyd meddwl mewn lleoliadau sy'n addas i'r diben sy'n rhoi urddas a phreifatrwydd.
- Sicrhau cyfathrebu da a chydlynu rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaeth iechyd meddwl er mwyn darparu gofal effeithiol, ymatebol a di-dor.
- Recriwtio a chadw staff tra chymwys ym mhob disgyblaeth sydd â hyder yn eu sgiliau a morâl uchel.

Gyda'i gilydd, mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a'r Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion yn llunio'r templad y caiff bob gwasanaeth ei asesu, ei fonitro a'i ddyfarnu yn ei erbyn. Maent yn ddogfennau gwaith, a'm bwriad yw gweld yr arweiniad ynddynt yn cael ei weithredu'n llawn ar hyd a lled Cymru.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, sefydlwyd Grwp Gweithredu, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob sector, sy'n gweithio'n agos â swyddogion er mwyn goruchwyllo'r broses weithredu, ac i roi gwybod i mi am y cynnydd yn rheolaidd. Disgwylir i bob gwasanaeth gydweithredu'n llawn â'r Grwp hwn er mwyn sicrhau y caiff y pedwar prif egwyddor eu cymhwyso, sef Cyfiawnder, Ymrymuso, Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd.

Iechyd meddwl yw un o'r tair blaenoriaeth uchaf ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad, a dylid adlewyrchu'r flaenoriaeth honno yn y sylw a rydd y gwasanaethau i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol hwn.

**Atodiad B**

**Datganiad ar y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol**

Pan wneuthum ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd yngylch ailstrwythuro'r GIG, eglurais y byddem yn sefydlu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol o fewn y GIG yng Nghymru er mwyn darparu'r swyddogaeth arbenigol hon i'r Byrddau Iechyd Lleol.

Wrth ystyried lleoliad y sefydliad newydd hwn roeddwn am ystyried yr ystod lawn o opsiynau posibl drwy gyfrwng proses agored, tryloyw a chadarn. Gwahoddwyd pob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru i fynegi diddordeb i fod yn sefydliad a fyddai'n cynnal y gwasanaeth cenedlaethol newydd, a fydd yn gweithredu ar hyd a lled Cymru ac a fydd â staff wedi eu lleoli ar hyd a lled Cymru.

Gwnaeth y pedair Ymddiriedolaeth a ddymunai ddatblygu eu diddordeb gyflwyniadau ffurfiol i banel arbenigol annibynnol o dan Gadeiryddiaeth Paul Hocking o Ganolfan Arweinyddiaeth Iechyd Cymru. Gwerthuswyd addasrwydd pob Ymddiriedolaeth i gynnal y gwasanaeth arbennig hwn yn ôl cyfres o feini prawf y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Argymhelliad cadarn y panel oedd mai Ymddiriedolaeth GIG Felindre a oedd wedi sgorio uchaf yn eu hasesiadau ac y dylid eu gwahodd i gynnal y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre hanes cryf o reoli a chyflenwi gwasanaethau cenedlaethol o ansawdd uchel yng Nghymru; mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Bron Brawf Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru, Uned Arolygiaeth a Gwybodaeth Canser Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru ac Atebion Iechyd Cymru. Ceir nifer o synergeddau rhwng y gwasanaethau a gyflawnir eisoes gan yr Ymddiriedolaeth a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus.

Penderfynais y bydd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, a gaiff ei sefydlu ar 1af Ebrill 2003 ac a fydd yn cyfuno'r adnoddau a leolir ar hyn o bryd yn y pum Awdurdod Iechyd ac yn y Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus (Cymru) – cyferia fy natganiad ysgrifenedig at hyn – yn gorff unigol, ac y caiff hwn ei reoli gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Wrth ddatblygu eu rôl newydd, byddaf yn pwysleisio wrth yr Ymddiriedolaeth y dylai lleoliad daearyddol y staff a'r swyddfeydd adlewyrchu'r rôl a fydd gan y Gwasanaeth newydd ar hyd a lled Cymru.